

**Fforwm Cymunedau Ffydd
Cofnodion Cyfarfod 2 Tachwedd 2015
Ystafell Harlech, Parc Cathays**

Yn bresennol:

Prif Weinidog Cymru	Cadeirydd
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi	Dirprwy Gadeirydd
Aled Edwards	Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Gethin Rhys	Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
George Stack	Archesgob Caerdydd
Carol Wardman	Yr Eglwys yng Nghymru
Peter Richards	Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
Jim Stewart	Cynghrair Efengylaidd Cymru
Elfed Godding	Cynghrair Efengylaidd Cymru
Stanley Soffa	Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru
Lisa Gerson	Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru
Nirmala Pisavadia	Cyngor Hindwiaid Cymru
Nordzin Pamo	Cyngor Bwdhaidd Cymru
Christine Abbas	Cyngor Baha'i Cymru
Viv Bartlett	Cyngor Baha'i Cymru
Ahmed Darwish	Cyngor Mwslimiaid Cymru
Surinder Channa	Ffydd Sikh
Alan Bayes	Cyngor Rhyng-ffydd

Swyddogion yn bresennol:

Kate Cassidy	Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi
Brett Pugh	Cyfarwyddwr, Safonau a Gweithlu Ysgolion
Jo Glenn	Is-adran Dyfodol Tecach
Andrea Adams	Is-adran Dyfodol Tecach

Ymddiheuriadau:

Archesgob Cymru, Dr Barry Morgan	Yr Eglwys yng Nghymru
Saleem Kidwai	Cyngor Mwslimiaid Cymru
Naran Patel	Cyngor Hindwiaid Cymru

Croeso a Chyflwyniadau

1. Croesawodd Prif Weinidog Cymru bawb i'r cyfarfod.

Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

2. Roedd cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi'u dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Cytunwyd fod y cofnodion yn gywir.

Pwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

3. Roedd crynodeb o'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ynghyd â diweddariadau wedi'u hanfon at yr aelodau cyn y cyfarfod. Cafodd y rhain eu nodi.

Materion yn Codi

Cyrff cyhoeddus i fod yn ymwybodol o'r gwyliau ffydd y mae'r calendr lleuadol yn effeithio arnynt

4. Yn y cyfarfod diwethaf roedd Prif Weinidog Cymru wedi dweud y byddai swyddogion Addysg yn cynhyrchu papur am y trefniadau mewn ysgolion yng Nghymru ar gyfer gwyliau crefyddol. Rhoddwyd sylw i hyn dan Eitem 2.

Eitem 1. Argyfwng Ffoaduriaid o Syria – Lesley Griffiths AC, Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi.

5. Dywedodd Prif Weinidog Cymru nad yw polisi Mewnfudo wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru ond ein bod, fel Llywodraeth ac fel cenedl, yn barod i groesawu a chefnogi ffoaduriaid y gofynnir inni eu hailgartrefu yn ein cymunedau. Mae cymunedau ffydd wedi bod yn flaenllaw mewn ymgyrchoedd cyhoeddus i groesawu ffoaduriaid.
6. Rhoddodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm am y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru i ailgartrefu ffoaduriaid o Syria. Ar 17 Medi, cadeiriodd Prif Weinidog Cymru Uwchgynhadledd lle roedd cynrychiolwyr o Wasanaethau Cyhoeddus allweddol a'r Trydydd Sector yn bresennol a lle gwnaethant nodi parodrwydd clir i gydweithio i roi croeso cadarnhaol a hafan ddiogel i ffoaduriaid o Syria sy'n symud i'w cartrefi newydd yng Nghymru.
7. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i dderbyn 20,000 o ffoaduriaid o Syria dros 5 mlynedd, er na chytunwyd eto ar nifer penodol i'w hailgartrefu yng Nghymru na'r trefniadau ariannu.
8. Yn dilyn yr Uwchgynhadledd rhoddodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad i sefydlu Tasglu Ffoaduriaid o Syria dan arweiniad Llywodraeth Cymru i gydgyssylltu ymdrechion i sicrhau bod Cymru'n barod i chwarae ei rhan lawn yn y rhaglen ailgartrefu. Bydd y Gweinidog yn cadeirio cyfarfod cyntaf y Tasglu ar 19 Tachwedd. Nodwyd fod Aled Edwards yn aelod o'r Tasglu.
9. Bydd y Tasglu ei hun yn cael ei gefnogi gan Fwrdd Gweithrediadau, sy'n cynnwys arweinwyr a phenderfynwyr ar draws Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Trydydd Sector. Caiff y Bwrdd hwn ei gadeirio gan Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid yn Ninas a Sir Caerdydd a chyfarfu am y tro cyntaf ar 5 Hydref.
10. Nododd y Gweinidog fod llawer o'r rhai a fydd yn cael eu hadleoli i Gymru dan y Cynllun Adleoli Pobl Agored i Niwed yn debygol o fod yn ddifrifol anabl neu'n dioddef trawma sylweddol a pharhaus. Byddant yn cael diogelwch dyngarol am 5 mlynedd i'w galluogi i ddechrau ailadeiladu eu bywydau.
11. Eglurodd y Gweinidog y bydd y Bwrdd Gweithrediadau yn ystyried sut y gall aelodau o'r cyhoedd gefnogi'r ymateb yng Nghymru. Mae'r Bwrdd

wedi penderfynu bod cyfathrebu'n un o'i flaenoriaethau a bydd yn gweithio i sicrhau y rhoddir negeseuon eglur i'r cyhoedd fel bod ganddynt ddealltwriaeth lawn am y modd y mae'r Cynllun Adleoli Pobl Agored i Niwed yn cael ei weithredu. Byddai digwyddiad dysgu yn cael ei gynnal yng Nghymru i baratoi Awdurdodau Lleol ar gyfer y rhan y byddant yn ei chwarae yn y Cynllun.

12. Eglurodd y Gweinidog ei bod wedi bod mewn trafodaethau gyda'r Gweinidog Ffoaduriaid o Syria ac y byddai'n cwrdd ag ef ar 16 Tachwedd. Roedd yn arbennig o awyddus i Lywodraeth y DU ddarparu eglurder ynghylch ariannu.
13. Mae'r Gweinidog yn ymwybodol o'r datganiadau cadarnhaol sydd wedi cael eu gwneud gan lawer o grwpiau ffydd yng Nghymru a bydd yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm wrth i faterion ddatblygu.
14. Yn ystod y drafodaeth fe wnaed y pwyntiau canlynol:
 - Er nad yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae cymunedau ffydd yn dymuno chwarae rhan. Fe nodon nhw'r prosesau sy'n bodoli ar gyfer ailgartrefu ffoaduriaid o Syria ond roedd her fwy gyda niferoedd cynyddol o ffoaduriaid yn cyrraedd yn ddigymell.
 - Mae cymunedau Mwslimaidd yn dymuno chwarae rhan, i gynorthwyo ffoaduriaid i integreiddio i mewn i'r cymunedau.
 - Gall rhai ffoaduriaid fod yn dioddef problemau iechyd meddwl a achoswyd gan eu profiadau trawmatig yn ystod y misoedd diwethaf. Bydd angen iddynt gael eu cefnogi.
 - Nid oedd polisi tramor wedi'i ddatganoli i Gymru ond roedd dod â'r rhyfel i ben yn Syria yn allweddol i ddatrys y materion sy'n sail i'r argyfwng ffoaduriaid.

Eitem 2. Addysg Grefyddol yng Nghymru – John Pugsley, Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

15. Yn dilyn cyfarfod y Fforwm Ffydd ar 20 Ebrill 2015, gofynnwyd i swyddogion yn yr Adran Addysg a Sgiliau am wybodaeth am y sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran amser o'r ysgol ar gyfer gwyliau crefyddol ac am ystyried canllawiau y gellid eu darparu a hefyd a oes grwpiau ffydd gwahanol yn cael eu cydnabod yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU.
16. Mewn canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn y *Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan*, ni ddylid ystyried bod plentyn wedi methu bod yn bresennol lle digwyddodd yr absenoldeb ar ddiwrnod a neilltuwyd yn arbennig ar gyfer defodau crefyddol gan y corff crefyddol y mae rhieni'r disgybl yn perthyn iddo.
17. Cafodd canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch codau presenoldeb ysgolion eu diwygio yn 2010. Ar hyn o bryd mae'r canllawiau hyn i fod i gael eu diwygio yn 2016 pan fydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal. Fe

hoffai swyddogion addysg i grwpiau ffydd fod yn rhan o'r ymgynghoriad yn 2016.

18. Mae'r cyngor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn gyson â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU i'w defnyddio yn Lloegr, sy'n datgan bod yn rhaid i ysgolion drin absenoldeb fel absenoldeb awdurdodedig pan fo'n digwydd o ganlyniad i ddefodau crefyddol. Nid yw unrhyw un o'r CYSAGau yng Nghymru'n cynhyrchu rhestr na chalendr o ddiwrnodau a neilltuwyd ar gyfer defodau crefyddol ar hyn o bryd.

19. Yn ystod y drafodaeth fe wnaed y pwyntiau canlynol:

- Bydd aelodau'r Fforwm yn darparu rhestr o ddyddiadau gwyliau crefyddol allweddol ar draws y gwahanol gymunedau ffydd ar gyfer swyddogion Addysg.
- Nid yw dyddiadau arholiadau'n cymryd gwyliau crefyddol i ystyriaeth.

Pwynt Gweithredu: Swyddogion Addysg i gynhyrchu calendr o ddyddiadau gwyliau crefyddol i aelodau'r Fforwm ei ystyried erbyn yr wythnos gyntaf ym mis Rhagfyr 2015.

Eitem 3. Newidiadau i'r cwricwlwm Addysg Grefyddol yng Nghymru - Karen Cornish, Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

20. Fe wnaeth Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, gyhoeddiad yn y Senedd ar 30 Mehefin ei fod yn derbyn yr holl argymhellion yn adroddiad yr Athro Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Yn dilyn y datganiad, fe ysgrifennodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau at aelodau'r Fforwm ym mis Medi yn gwahodd y Fforwm i enwebu cynrychiolydd i eistedd ar y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol, grŵp allweddol o fewn y trefniadau llywodraethu sy'n cael eu sefydlu i ganlyn arni â'r weledigaeth a nodir yn adroddiad yr Athro Donaldson. Bydd cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol yn cael ei gynnal yn gynnar ym mis Rhagfyr.

21. Mae adroddiad yr Athro Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus*, yn cydnabod rôl hanfodol Addysg Grefyddol o ran galluogi dysgwyr i ddatblygu parch tuag at ddiwylliannau eraill a dealltwriaeth amdanynt. Mae'n argymhell bod Addysg Grefyddol yn parhau i fod yn ofyniad cwricwlaidd statudol o'r dosbarth derbyn ymlaen fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (argymhelliad 9). Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun *Cwricwlwm i Gymru, cwricwlwm am oes*, sy'n nodi sut y bydd yn gweithredu ar yr argymhellion yn *Dyfodol Llwyddiannus*, ar 22 Hydref.

22. Gwahoddwyd y consortia addysg rhanbarthol i weithio gyda'u hysgolion ledled Cymru – yn ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a ffydd – i wneud cais i fod yn Ysgolion Arloesi. Bydd Ysgolion Arloesi yn gweithio fel rhan o rwydwaith Cymru Gyfan i arwain a threfnu cynllun a datblygiad manwl y cwricwlwm newydd i Gymru. Bydd yr ysgolion llwyddiannus yn cael eu

cyhoeddi yn y dyfodol agos (Cyhoeddwyd yr Ysgolion Arloesi ar 5 Tachwedd – mae'r manylion ar wefan Llywodraeth Cymru).

23. Ar hyn o bryd mae Addysg Grefyddol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol. Mae'r *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a gyhoeddwyd yn 2008, yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol (sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Addysg 1996 a Deddf Diwygio Addysg 2002) ar gyfer maes llafur y cytunwyd arno'n lleol.
24. Ar draws y cwricwlwm, o'r Cyfnod Sylfaen hyd nes eu bod yn 19 oed, rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu ag Addysg Grefyddol. Trwy weithgareddau diddorol, ymarferol, integredig, gall plant ddysgu mwy amdanynt hwy eu hunain, pobl eraill a'r byd o'u hamgylch a datblygu dealltwriaeth am eu treftadaeth ddiwylliannol a chrefyddol gyfoethog yng Nghymru. Mae hyn yn eu symbylu i godi ac ymchwilio i gwestiynau dwys sy'n ymwneud â'u profiadau personol, crefydd a bywyd yn gyffredinol, gan felly adeiladu ar eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.
25. Dylai Addysg Grefyddol yn yr 21^{ain} ganrif annog disgyblion i archwilio ystod o gwestiynau athronyddol, diwinyddol, moesegol ac ysbrydol mewn ffordd fyfyrion, ddadansoddol, gytbwys sy'n ysgogi cwestiynau a thrafodaeth.
26. Mae gan Addysg Grefyddol rôl hollbwysig o ran cynorthwyo dysgwyr i archwilio'u daliadau a'u gwerthoedd personol yng nghymdeithas amlddiwylliannol yr 21ain ganrif. Yn ei adroddiad mae'r Athro Donaldson wedi cydnabod rôl hanfodol Addysg Grefyddol o ran galluogi dysgwyr i ddatblygu parch tuag at ddiwylliannau eraill a dealltwriaeth amdanynt. Mae swyddogion addysg yn ystyried sut y gallai Addysg Grefyddol, athroniaeth a moeseg gael eu cryfhau yng nghyd-destun Maes Dysgu a Phrofiad newydd y Dyniaethau.
27. Bydd y rhwydwaith Ysgolion Arloesi yn gweithio gydag arbenigwyr i drefnu'r cwricwlwm newydd, sydd wrth gwrs yn cynnwys Addysg Grefyddol. Mae'r Ysgolion Arloesi yn cael eu hadnabod a byddant yn gweithio dros yr wythnosau nesaf i gytuno ar eu rhaglenni gwaith (diweddariad – mae'r Ysgolion Arloesi wedi cael eu cyhoeddi a byddant yn dechrau cydweithio'n ffurfiol o fis Ionawr 2016).
28. Bydd ymgysylltu ystyrlon â chymunedau ffydd yn hanfodol wrth i'r broses hon ddatblygu. Bydd gan grwpiau ffydd, enwadol a grwpiau buddiant ehangach eraill rôl bwysig.

Pwyntiau gweithredu:

- Y Fforwm i gynnig enw un aelod i ymuno â'r Grŵp Rhanddeiliaid Strategol.
- Bydd dolen i'r ddogfen *Cwricwlwm i Gymru, cwricwlwm am oes* yn cael ei hanfon at aelodau'r Fforwm.

Eitem 4. Ffocws Ystadegol ar Grefydd yng Nghymru, Cyfrifiad 2011 - Sue Leake a Rebecca Armstrong, Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi.

29. Mae crefydd person yn bwysig o ran diffinio nodweddion ar ei hunaniaeth. Gellir cyfuno data ynghylch ymlyniad crefyddol â data ynghylch grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol a nodweddion eraill i ddarparu darlun manwl o'r gymdeithas yr ydym yn byw ynddi a'r modd y mae'n esblygu. Ceir ffactorau lluosog sy'n sbarduno newidiadau mewn ymlyniad crefyddol gan gynnwys twf, ymfudo, newidiadau ym mharodrwydd pobl i ddweud nad ydynt yn arddel unrhyw grefydd ac ymwybyddiaeth o'r cwestiwn.
30. Mae'r bwletin ystadegol, "Ffocws Ystadegol ar Grefydd yng Nghymru, Cyfrifiad 2011", yn ddadansoddiad manwl o ddata Cyfrifiad 2011 ynghylch crefydd yng Nghymru ac yn archwilio nodweddion penodol sy'n ymwneud â'r grwpiau crefyddol hyn gan gynnwys Ethnigrwydd, Hunaniaeth Genedlaethol, Gwlad Eneidigol, Oedran, Rhyw, Cyfansoddiad yr Aelwyd, Dosbarthiad Daearyddol, Amgylchiadau o ran Tai, Iechyd, Addysg a'r Farchnad Lafur. 'Beth yw eich crefydd?' yw'r unig gwestiwn gwirfoddol yn y Cyfrifiad. Cafodd y cwestiwn ei gynnwys yn y Cyfrifiad cenedlaethol am y tro cyntaf yn 2001. Nid yw'r Cyfrifiad yn cyfeirio at yr Eglwys yng Nghymru yn y cwestiwn am grefydd ar hyn o bryd.
31. Cristnogaeth yw'r grefydd fwyaf yng Nghymru o hyd, er bod y gyfran o'r boblogaeth a ddywedodd eu bod yn Gristnogion wedi gostwng 14.3% ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2001. Mae poblogaethau Mwslimaidd, Hindŵaidd a Bwdhaidd bron wedi dyblu ers 2001.
32. Bu cynnydd sylweddol o 13.6% yn y rhai sy'n dewis 'dim crefydd' fel ateb ers 2001. Roedd Cyfrifiad 2001 yn cynnig yr opsiwn i gofnodi 'dim' o ran ymlyniad crefyddol; yng Nghyfrifiad 2011 cafodd hwn ei newid i'r opsiwn 'dim crefydd'. Cafodd y newidiadau yn y boblogaeth Gristnogol ac yn y ganran a ddewisodd 'dim crefydd' fel ateb eu gweld yn Lloegr hefyd er nad oedd y newidiadau mor sylweddol.
33. Cyflwynwyd peth dadansoddiad o ran ble'r oedd y cyfrannau uchaf o grwpiau crefyddol wedi'u lleoli yng Nghymru ac o broffiliau demograffig gwahanol y grwpiau.
34. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n weithredol i annog defnyddwyr i roi adborth a sylwadau. Dylid e-bostio sylwadau i stats.inclusion@wales.gsi.gov.uk.

Pwynt Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i e-bostio'r ddolen i'r adroddiad llawn at aelodau'r Fforwm.

Eitem 5. Unrhyw Fater Arall

Grwpiau Ffydd Heb Gynrychiolaeth - Aled Edwards

35. Roedd Cyngor Rhyng-ffydd Cymru wedi penodi rhywun yn flaenorol i gynrychioli grwpiau ffydd a oedd heb gynrychiolaeth ar y Cyngor. Ers ymddiswyddo o'r rôl yn 2010, nid oedd y lle gwag wedi cael ei lenwi. Cododd Aled y mater gyda'r Fforwm i archwilio'r syniad o benodi rhywun i gynrychioli'r grwpiau ffydd sydd heb gynrychiolaeth ar y Fforwm Cymunedau Ffydd.
36. Estynnodd Prif Weinidog Cymru wahoddiad i'r Fforwm baratoi papur sy'n nodi eu casgliad i'w gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. Atgoffodd Prif Weinidog Cymru y Fforwm y bydd angen i'r Amodau Gorchwyl presennol gael eu diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau.

Pwynt Gweithredu: Y Fforwm i gyflwyno papur i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

37. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 8 Mehefin 2016 yn Ystafell Gynadledda 21, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd o 10:30am – 12:00pm.